

Gwybodaeth i Ofalwyr wrth fynd â dillad brwnt cleifion i'w golchi

Tîm Atal Heintiau

Wrth ddelio â dillad brwnt neu rai wedi'u baeddu (dillad nos neu ddillad arall), mae'r risg o heintio pobl iach yn isel iawn. Bydd staff y ward yn rhoi dillad brwnt y cleifion mewn bag dillad gwyn gyda strïbed oren (bag alginad), y gellir ei roi'n uniongyrchol mewn peiriant golchi cartref. Pan fydd y cylch golchi wedi gorffen, gallwch dynnu'r bag a'i roi mewn bin gwastraff arferol. Fodd bynnag, weithiau nid yw'r bagiau hyn ar gael a byddai'n ddoeth cymryd rhai rhagofalon glanweithdra da sylfaenol fel a ganlyn:-

- Dylai'r staff fod wedi tynnu unrhyw ddeunydd ymgarthol solid oddi ar y dillad cyn i chi ei gasglu er gall fod wedi baeddu neu â staen arno. Bydd yn cael ei roi i chi mewn bag eiddo claf a dylid gwaredu hwn ar ôl ei ddefnyddio.
- Cyn trin y gwaith golchi, gorchuddiwch unrhyw friwiau neu ysgythriadau ar eich dwylo gyda phlastr gwrth-ddŵr.
- Os bydd yn rhaid i chi ddal neu ddosbarthu'r dillad golchi, dylid gwneud cyn lleied o hyn ag sy'n bosibl. Yn ddelfrydol, dylech wisgo menig rwber amddiffynnol e.e. math cegin y gellwch wedyn eu golchi a'u rinsio ar ôl eu defnyddio.
- Daliwch y dillad golchi oddi wrthyh.
- Tynnwch y dillad a'u rhoi'n uniongyrchol o'r bag i mewn i'r peiriant.
- Golchwch y dillad ar gylch ar wahân i eitemau eraill.
- Golchwch y dillad ar y cylch twymaf sy'n addas i'r ffabrig. Powdwr/ hylif biolegol yw'r gorau.
- Os bydd y tu allan i'ch peiriant yn baeddu, defnyddiwch gynnyrch glanhau pwrpasol i'w lanhau e.e. hylif golchi llestri/ glanhawr ystafell ymolchi a chlwtyn y gellir ei daflu.
- Golchwch eich dwylo yn y menig gyda sebon a dŵr, rinsiwch a thynnwch y menig. Golchwch eich dwylo eto gyda sebon a dŵr, rinsiwch a'u sychu'n drwyadl cyn gwneud dim byd arall e.e. bwyta, yfed neu ysmygu.
- Os oes gennych beiriant sychu a bod y ffabrig yn addas, sychwch ar y cylch twymaf priodol. Neu, sychwch y dillad mewn aer sych cyn eu smwddio.

- Pan fyddan nhw'n sych, gallwch eu smwddio gyda'r haearn twymaf sy'n addas i'r ffabrig.

Os na chawsoch fag dillad gwyn gyda strided oren (bag alginad), drwy ddilyn y canllawiau uchod mae'r risg o unrhyw draws heintio'n isel iawn.

Os ydych angen cyngor pellach, gallwch siarad â'r nyrs sy'n gyfrifol.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English**